



Teitl y swydd:	Arweinydd Gweithgareddau Garddio a Chydlynnydd Gwirfoddolwyr
Prosiect:	Edible Mach - Tyfu, Coginio, Bwyta Gyda'n Gilydd / Grow, Cook, Eat Together
Rôl:	10.5 awr yr wythnos, ambell benwythnos a gyda'r nos
Lleoliad:	Y Plas, Machynlleth / o bell
Cyflog:	£7,200 y flwyddyn (yn seiliedig ar FTE o £24,000 y flwyddyn)
Hyd:	Cyfnod penodol – yn dod i ben 31 Ionawr 2027
Pensiwn:	Cyflogwr 4% / gweithiwr 6% ar ei holl enillion, drwy Nest Pensions
Gwyliau:	28 diwrnod + 8 diwrnod gŵyl banc (pro rata)
Rheolwr Llinell:	Rheolwr Prosiect

Cefndir i'r Prosiect

Mae Mach Maethlon yn fenter gydweithredol nid-er-elw sy'n gweithio i hybu cadernid bwyd ym Mro Ddyfi. Fel rhan o Mach Maethlon, mae Edible Mach yn brosiect a arweinir gan y gymuned ar gyfer tyfu cynydau bwydwydwy o amgylch Machynlleth a chynnal gweithdai coginio a thyfu.

Mae hon yn swydd newydd gyffrous, gan weithio ym Machynlleth a'r cyffiniau i gynnal prosiect newydd gydag arian y Loteri ac sy'n adeiladu ar y gwaith y mae Mach Maethlon wedi bod yn ei wneud ym Machynlleth ers dros 10 mlynedd.

Ein bwriad yw uwchsgilio, ysbrydoli a rhoi hyder i bobl leol i goginio a thyfu eu bwyd eu hunain trwy gynnal gweithdai tyfu a choginio, a threfnu digwyddiadau tymhorol a sesiynau gwirfoddoli mewn safleoedd tyfu cymunedol lleol.

Bydd y prosiect hwn yn rhedeg am ddwy flynedd, a'i fwriad yw cynyddu sgiliau o ran tyfu bwyd, ei ddewis a'i goginio a bwyta'n faethlon gyda chynhwysion wedi'u tyfu'n lleol, yn ogystal â chynyddu cydlyniant cymunedol a gwella sgiliau iaith Gymraeg y gymuned.

Byddwch yn rhan o dîm y prosiect a fydd yn gweithio gydag aelodau pwyllgor gwirfoddol Edible Mach ac yn cael eu cefnogi ganddynt, a hefyd, fel rhan o Mach Maethlon, y Cyfarwyddwyr gwirfoddol.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i rywun wneud gwahaniaeth mawr i dyfu cynydau cymunedol a sicrhau cadernid bwyd lleol ym Machynlleth a'r cyffiniau.

Tyfu, Coginio, Bwyta Gyda'n Gilydd / Grow, Cook, Eat Together
wedi'i ariannu gan raglen "Pobl a Lleoedd" Cronfa Gymunedol y Loteri
Genedlaethol



Disgrifiad swydd

Fel Arweinydd Gweithgareddau Garddio a Chydlynnydd Gwirfoddolwyr byddwch yn gweithio ochr yn ochr â'r Rheolwr Prosiect i gydlynu elfen 'tyfu' y prosiect a bydd hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am y gwaith garddwriaeth yn y safleoedd cymunedol ar draws Edible Mach. Yn y rôl hon byddwch yn datblygu gweithdai ar dyfu planhigion ac yn arwain wrth gynnal y gweithdai hynny a'r sesiynau gwirfoddoli wythnosol a misol, ynghyd â chefnogi cynnal digwyddiadau a gweithdai eraill trwy gydol y flwyddyn yn ôl yr angen.

Prif gyfrifoldebau:

- Gweithio ochr yn ochr â'r Rheolwr Prosiect i ddatblygu cynllun o waith garddwriaeth ar gyfer safleoedd cymunedol Edible Mach
- Cyflwyno cynllun gwaith garddwriaeth sydd wedi'i gynllunio yn unol ag amcanion a chyllideb y prosiect
- Cydweithio â'r Rheolwr Prosiect i ddatblygu rhaglen o weithdai ar dyfu planhigion, yn seiliedig ar angen cymunedol, a'r gweithdai wedi'u harwain gennych chi neu arbenigwyr lleol
- Cydlynu ac arwain gweithdai ar dyfu, ynghyd â sesiynau gwirfoddoli wythnosol a misol, ar safleoedd lleol tyfu cymunedol Edible Mach
- Cydweithio â'r Rheolwr Prosiect i gynnal sawl gŵyl bwyd lleol a thymhorol ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn megis amser hau a chynhaeaf i ddathlu bwyd lleol a chynyddu ymwybyddiaeth o'r prosiect
- Gweithio gyda gwirfoddolwyr i helpu i hyrwyddo a dosbarthu Pecynnau Hadau i Deuluoedd
- Creu asesiadau risg a chynnal sesiynau ymsefydlu a chynefino i wirfoddolwyr
- Diweddarau ffurflenni presenoldeb ac adborth ar gyfer digwyddiadau, gweithdai a sesiynau gwirfoddoli
- Dod o hyd i offer sydd ei angen ar gyfer gwirfoddoli a chynnal a chadw gwelyau llysiau cymunedol
- Gweld gwaith sydd ei wneud gan drwsio unrhyw ddifrod neu wneud unrhyw waith cynnal a chadw ar safleoedd tyfu cymunedol
- Cefnogi gweithdai a digwyddiadau coginio, yn ôl yr angen
- Mynychu cyfarfodydd pwyllgor misol

Manyleb y person

		Hanfodol	Dymunol
1. Cymwysterau	Cymhwyster perthnasol mewn garddwriaeth neu debyg		X
2. Profiad ymarferol	Gwaith garddwriaeth gan gynnwys cynllunio a chynhyrchu gydol y flwyddyn	X	
	Gweithio gyda phobl o amrywiaeth o oedrannau a chefnidiroedd	X	
	Profiad o wirfoddoli neu reoli llinell		X
	Profiad o reoli cyllideb		X
	Gweithio gyda phrosiectau wedi'u hariannu gan grantiau cymunedol		X
	Profiad o waith adfywio/tyfu organig		X
	Dangos dealltwriaeth o waith adfywio/tyfu organig	X	
	Gwybodaeth am asesiadau risg ac am iechyd a diogelwch perthnasol	x	
	Gwybodaeth am rwydweithiau bwyd lleol		X
	Gwybodaeth am y gymuned/trydydd sector		X
3. Gwybodaeth			
4. Sgiliau	Sgiliau cyfathrebu llafar/cyflwyno ardderchog	X	
	Y gallu i weithio gyda grwpiau amrywiol o unigolion	X	
	Gwybodaeth ymarferol o Word/Excel ar gyfer tracio/adrodd a'r gallu i ddefnyddio TG i gyfathrebu â'r tîm drwy e-bost	X	
	Gwaith amaethyddiaeth adfywiol		X
	Profiad o arddio arddangos		X
	Sgiliau gwaith coed/adeiladu		X
	Yn siarad Cymraeg		X
5. Rhinweddau personol	Yn gallu ysgogi eich hun, ac yn gallu gweithio heb oruchwyliaeth i derfynau amser	X	
	Yn gallu gweithio'n dda mewn tîm	X	
	Yn drefnus iawn ac yn rheoli amser yn dda	X	

Mae Mach Maethlon wedi ymrwymo i gynnig amgylchedd gwaith sy'n meithrin amrywiaeth, cynhwysiant a chyflogaeth cyfle cyfartal.

Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol yn amlinellu eich cymwysterau a'ch profiad i matt@machmaethlon.org

Dyddiad olaf cyflwyno cais yw erbyn 5pm ar 8fed Ebrill 2025

Cynhelir y cyfweiliadau ym Machynlleth.